| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **25 MAI 2022** |
| TEITL | **SIARTER ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS | **CYFLWYNO SIARTER ARCHWILIO MEWNOL I'R PWYLLGOR** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES, RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **CYMERADWYO'R SIARTER** |

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Daeth *Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus* ("y Safonau") i rym ar 1 Ebrill 2013, a chawsant eu diwygio yn Ebrill 2017. Un o ofynion y Safonau yw'r angen i lunio Siarter Archwilio Mewnol. Mae'r Safonau, yn ogystal â Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol (2019) ategol a gyhoeddwyd gan CIPFA, yn manylu ar yr hyn a ddylid ei gynnwys mewn Siarter Archwilio Mewnol ar gyfer Corff Llywodraeth Leol.

1.2 Yn ôl y Safonau a'r Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol ategol, mae'r hyn a ddylid ei gynnwys mewn Siarter Archwilio Mewnol ar gyfer Corff Llywodraeth Leol fel a ganlyn:

- Diffiniad ffurfiol o bwrpas, awdurdod, a chyfrifoldeb y gweithgarwch archwilio mewnol, sy'n gyson â'r Safonau.
- Diffiniad o'r termau 'bwrdd' ac 'uwch reolwyr', at ddibenion y gweithgaredd archwilio mewnol. (Noder y disgwylir y bydd y pwyllgor archwilio yn cyflawni rôl y bwrdd yn y mwyafrif o achosion).
- Nodi sefyllfa'r gweithgarwch archwilio mewnol o fewn y sefydliad.
- Sefydlu perthynas adrodd swyddogaethol y Prif Swyddog Archwilio gyda'r bwrdd.
- Sefydlu atebolrwydd, llinell adrodd a'r berthynas rhwng y Prif Swyddog Archwilio a'r rhai y gall y Prif Swyddog Archwilio adrodd iddynt yn weinyddol.
- Sefydlu cyfrifoldeb y bwrdd a hefyd rôl y swyddogion statudol (fel y Prif Swyddog Cyllid, y swyddog monitro a phennaeth y gwasanaeth taledig) mewn perthynas ag archwilio mewnol.
- Sefydlu hawl archwilio mewnol i gael mynediad at yr holl gofnodion, asedau, personél ac adeiladau, a'i awdurdod i gael gwybodaeth ac esboniadau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol i gyflawni ei gyfrifoldebau.

- Diffinio cwmpas gweithgareddau archwilio mewnol.
- Cydnabyddiaeth bod cylch gwaith archwilio mewnol yn ymestyn i amgylchedd reolaeth gyfan y sefydliad.
- Sefydlu annibyniaeth sefydliadol Archwilio Mewnol.
- Ystyried y trefniadau ar gyfer adnoddau priodol.
- Diffiniad o rôl y gwasanaeth archwilio mewnol mewn unrhyw waith sy'n gysylltiedig â thwyll.
- Gosod allan y trefniadau sy’n bodoli ym mholisïau gwrthlygredd a gwrth-dwyll y sefydliad, i gael eu hysbysu o'r holl dwyll, llygredd neu afreoleidd-dra a amheuir neu a ddarganfyddir.
- Y trefniadau ar gyfer osgoi gwrthdaro buddiannau os yw archwilio mewnol yn ymgymryd â gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio.
- Diffiniad o natur y gwasanaethau sicrwydd a ddarperir i'r sefydliad, yn ogystal â sicrwydd a ddarperir i bartïon sy’n allanol i'r sefydliad.
- Diffiniad o natur gwasanaethau ymgynghori.
- Cydnabyddiaeth o natur fandadol y Safonau.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Gofynnir i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried cynnwys y Siarter Archwilio Mewnol, ei gymeradwyo, a chefnogi Archwilio Mewnol i gyflawni ei rôl.

# SIARTER

# ARCHWILIO MEWNOL

RHOI POBL GWYNEDD YN GANOLOG I BOPETH RYDYM YN EI WNEUD
*PUTTING **THE PEOPLE OF GWYNEDD** AT THE CENTRE OF EVERYTHING WE DO*

# SIARTER ARCHWILIO MEWNOL

**1. PWRPAS**

1.1 Pwrpas y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yw:

| |
|---|
| ***Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio*** |

**2. RÔL ARCHWILIO MEWNOL MEWN LLYWODRAETH LEOL**

2.1 Mae angen statudol am wasanaeth Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol. Caiff yr angen ei ymhlygu yn Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, sydd yn gofyn fod awdurdodau yn "gwneud trefniadau ar gyfer gweinyddiaeth briodol o'n materion ariannol ac yn sicrhau fod un o'u swyddogion yn gyfrifol am weinyddiaeth y materion hyn."

2.2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn datgan:

(1) Rhaid i gorff perthnasol gynnal system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol o'i gofnodion cyfrifyddu a'i system o reoli mewnol.

(2) Rhaid i unrhyw swyddog neu aelod o'r corff hwnnw, os yw'r corff yn ei gwneud yn ofynnol—

(a) trefnu bod unrhyw ddogfennau'r corff sy'n ymwneud â'i gofnodion cyfrifyddu a chofnodion eraill ar gael fel y mae'n ymddangos i'r corff hwnnw ei fod yn angenrheidiol at ddibenion yr archwiliad; a

(b) rhoi i'r corff y cyfryw wybodaeth ac esboniad y mae'r corff hwnnw'n ystyried eu bod yn angenrheidiol at y diben hwnnw.

(3) Rhaid i gorff perthnasol mwy, o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn, gynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei archwiliad mewnol.

(4) Rhaid ystyried canfyddiadau'r adolygiad y cyfeirir ato ym mharagraff (3), fel rhan o'r ystyriaeth o'r system o reoli mewnol y cyfeirir ati yn rheoliad 5(3), gan y pwyllgor neu'r corff y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw.

**3. SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR GYHOEDDUS**

3.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus (PSIAS) yn berthnasol i bob darparwr gwasanaeth archwilio mewnol yn y sector gyhoeddus, boed yn fewnol, gwasanaethau a rennir neu allanol. Rhain a ddiffinnir fel "*ymarferion archwilio mewnol priodol.*"

3.2 Mae'r Safonau yn diffinio Archwilio Mewnol fel a ganlyn:

**"Mae Archwilio Mewnol yn weithgaredd sicrwydd ac ymgynghori gwrthrychol ac annibynnol sydd wedi ei gynllunio i ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau sefydliad. Mae'n helpu sefydliad gyflawni ei amcanion drwy werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu mewn modd disgybledig, systematig."**

3.3 Tra bod Archwilio Mewnol yn anad dim yn sicrhau priodoldeb ariannol, mae cylch gwaith Archwilio Mewnol yn ymestyn i holl amgylchedd reolaeth y Cyngor, ac nid yw wedi ei gyfyngu i risg ariannol yn unig.

**4. CYFRIFOLDEBAU AC AMCANION**

4.1 Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r swyddog sydd â'r cyfrifoldeb am "weinyddu'n briodol faterion ariannol y Cyngor" yn unol ag Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972. Fel canlyniad, mae Archwilio Mewnol wedi ei leoli o fewn Cyllid.

4.2 Mae'r Safonau yn cynnwys terminoleg sydd angen ei ddiffinio'n glir o fewn y Siarter lleol, sef y "Bwrdd", y "Pwyllgor Archwilio", y "Prif Swyddog Archwilio" ac "Uwch Reolwyr".

**"Bwrdd" a "Pwyllgor Archwilio"**

Mae'r safonau yn diffinio'r "Bwrdd" (*Board*) fel "***y lefel uchaf o gorff llywodraethol sydd â'r cyfrifoldeb i gyfarwyddo a/neu goruchwylio gweithgareddau a rheolaeth y sefydliad. Gall 'Bwrdd' gyfeirio ar bwyllgor archwilio y mae'r corff llywodraethu wedi dirprwyo swyddogaethau penodol iddo***". Maent yn diffinio "Pwyllgor Archwilio" (*Audit Committee*) fel y "***grŵp llywodraethu sy'n gyfrifol am sicrwydd annibynnol ar ddigonolrwydd y fframwaith reoli risg, yr amgylchedd reolaeth fewnol a hygrededd adroddiadau ariannol***". Yn unol â Chynllun Dirprwyo'r Awdurdod, mae ystyried/ymateb i adroddiadau gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn swyddogaeth sydd wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

At bwrpasau'r Siarter Archwilio Mewnol yma, felly, mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ymgymryd â rôl "Bwrdd" a "Pwyllgor Archwilio" yng Nghyngor Gwynedd er mwyn diwallu gofynion y Safonau.

**"Prif Swyddog Archwilio"**

Y Rheolwr Archwilio sy'n gweithredu fel Prif Swyddog Archwilio (*Chief Audit Executive*) yn unol â'r derminoleg yn y Safonau.

**"Uwch Reolwyr"**

Lle mae'r Safonau yn cyfeirio at "Uwch Reolwyr" (Senior Management), yng nghyd-destun cyfathrebu canlyniadau gwaith archwilio mewnol a thrafod y cynllun gwaith, mae'r Rheolwr Archwilio yn atebol i'r Pennaeth Cyllid, ond mae ganddo/ganddi'r rhyddid i adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr, Y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol, y Swyddog Monitro neu aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio pe bai ef/hi o'r farn fod hynny'n angenrheidiol, ac yn ymarferol y Rheolwr Archwilio sydd yn rhyddhau'r holl adroddiadau i gwsmeriaid.

4.3 Er mwyn diwallu'r angen i ddarparu gwasanaethau o'r ansawdd orau bosibl o fewn yr adnoddau sydd ar gael ac yn unol ag anghenion pobl Gwynedd, mae defnydd priodol o'r adnoddau sydd ar gael yn hanfodol er mwyn sicrhau fod ansawdd y gwasanaeth o safon uchel. Nod Archwilio Mewnol yw cynnig hyder i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ac fel canlyniad i drigolion Gwynedd, fod yr adnoddau hynny sydd ar gael wedi eu rheoli a'u defnyddio'n briodol gyda thryloywder.

4.4 Gwneir hyn drwy ddarparu barn annibynnol a gwrthrychol i'r Cyngor ar yr amgylchedd reolaeth trwy gynnal archwiliadau ar systemau ariannol a threfniadau rheolaeth fewnol y Cyngor, gan gynnal cyfuniad o archwiliadau risg, system, rheoleidd-dra, cyfrifiadurol a chontractau ar ystod eang o wasanaethau'r Cyngor, yn unol â strategaeth a chynllun archwilio sydd yn seiliedig ar asesiad o anghenion archwilio'r Cyngor.

4.5 Bydd y Rheolwr Archwilio yn sicrhau fod archwilio mewnol yn cael ei ddarparu yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus cyn belled a bo hynny'n ymarferol. I'r perwyl hwn, bydd y Rheolwr Archwilio yn paratoi cynllun archwilio blynyddol wedi ei lunio drwy adolygiad gwrthrychol o'r risgiau a all amharu ar ddarpariaeth gwasanaethau'r Cyngor, ac ymgynghoriad gyda Phenaethiaid ac Uwch Swyddogion. Bydd yn cael ei gytuno gyda'r Pennaeth Cyllid cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w fabwysiadu.

4.6 Yn ogystal â Chyngor Gwynedd, mae gan Archwilio Mewnol gwsmeriaid allanol. Caiff unrhyw gynnydd yn yr ymrwymiad ar gyfer y gwaith yma ei gytuno gyda’r Pennaeth Cyllid ymlaen llaw, a hysbysir y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o hyn.

4.7 Mae archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am ddatgan barn annibynnol ar ddatganiadau ariannol y sefydliad a chasgliad ar ei drefniadau er mwyn sicrhau economi, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Bydd Archwilio Mewnol yn cydweithio â’r archwilwyr allanol.

## 5. ANNIBYNIAETH, CODE MOESEG A HAWL MYNEDIAD

5.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus yn pwysleisio annibyniaeth Archwilio Mewnol o ran trefn a hawl adrodd.

5.2 Bydd pob Archwiliwr Mewnol yn arwyddo Datganiad Annibyniaeth Archwiliwr yn flynyddol sydd yn cwmpasu y ddyletswydd i gydymffurfio â’r pedwar prif egwyddor sydd wedi eu hymgorffori yng Nghod Moeseg y Safonau:

- Integriti
- Gwrthrychedd
- Cyfrinachedd
- Cymhwysedd

5.3 Mae Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor yn cynnwys darpariaeth am wasanaeth Archwilio Mewnol o fewn yr awdurdod:

**16.12 ARCHWILIAD MEWNOL**

**PWRPAS:**
***Mae Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn mynegi'r gofyniad am swyddogaeth archwilio fewnol ac felly swyddogaeth werthuso annibynnol a gwrthrychol yw hi a sefydlwyd gan yr awdurdod er mwyn adolygu'r system reoli fewnol.***

16.12.1 Bydd archwiliad mewnol parhaus, dan reolaeth a chyfarwyddyd annibynnol y Pennaeth Cyllid, i gyfrifon a gweithgareddau ariannol ac eraill y Cyngor, yn unol â'r Rheoliadau Archwilio a Chyfrifo.

16.12.2 Gweithredir y swyddogaeth Archwilio Mewnol hyd ag y bod modd yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus. Y "Prif Swyddog Archwilio" dynodedig yn ôl y safonau yw'r Rheolwr Archwilio.

| | |
|---|---|
| 16.12.3 | Paratoir Siarter Archwilio Mewnol a gaiff ei chymeradwyo a'i hadolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. |
| 16.12.4 | Fel arfer bydd y Rheolwr Archwilio yn adrodd yn uniongyrchol i'r Pennaeth Cyllid. Fodd bynnag, caiff hefyd adrodd i, a chael troi at y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol, y Swyddog Monitro a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio os yw hynny'n angenrheidiol yn ei dyb ef/hi mewn amgylchiadau neilltuol. |
| 16.12.5 | Bydd gan y Pennaeth Cyllid a'r Rheolwr Archwilio neu eu cynrychiolydd cydnabyddedig, awdurdod :-<br>(a) i fynd i mewn i unrhyw adeilad, tir neu safle contractio eiddo'r Cyngor ar unrhyw amser rhesymol;<br>(b) i gael gweld yr holl gofnodion, dogfennau a llythyrau sy'n ymwneud ag unrhyw drafodion ariannol neu drafodion eraill o eiddo'r Cyngor;<br>(c) i ofyn am, a derbyn esboniadau sy'n angenrheidiol, yn ei dyb ef/hi, ar unrhyw fater sy'n cael ei archwilio;<br>(ch) i ofyn i unrhyw un sy'n gweithio i'r Cyngor ddangos unrhyw arian parod, nwyddau neu eiddo arall yn perthyn i'r Cyngor sydd yn ei ofal. |
| 16.12.6 | Bydd y Pennaeth Cyllid yn cytuno ar y cynlluniau archwilio canoldymor a blynyddol a baratowyd gan y Rheolwr Archwilio ac sy'n ystyried nodweddion a risgiau perthynol y gweithgareddau dan sylw. Bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymeradwyo'r cynlluniau. |
| 16.12.7 | Bydd pob swyddog priodol yn ystyried ac yn ymateb i ddarganfyddiadau'r adroddiadau archwilio. Bydd Prif Swyddogion yn gofalu bod unrhyw weithgaredd a gytunwyd arno i liniaru'r risgiau a amlygwyd yn yr archwiliad wedi'u gwireddu yn amserol ac effeithlon yn unol â'r cynllun gweithredu a gytunwyd. |
| 16.12.8 | Bydd y Rheolwr Archwilio yn adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:<br>(a) Ar ganlyniadau'r gwaith Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod blaenorol.<br>(b) Am unrhyw wendidau rheolaeth sylweddol a ddarganfuwyd neu a archwiliwyd.<br>(c) Am unrhyw weithrediad cytunedig na wireddwyd o fewn amserlen a gytunwyd, lle byddai methiant i weithredu wedi ymestyn gwendid rheoli sylweddol.<br>(ch) Cynnydd ar gwblhau Cynllunio Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn gyfredol. |

## 6. EGWYDDORION CRAIDD

6.1 Ar gyfer ystyried archwilio mewnol yn effeithiol, mae'r egwyddorion craidd canlynol yn mynnu bod yr archwiliwr mewnol/gweithgaredd archwilio mewnol yn:

- Arddangos integriti
- Arddangos cymhwysedd a gofal proffesiynol
- Yn wrthrychol ac yn rhydd o ddylanwad (annibyniaeth)
- Yn alinio i strategaethau, amcanion a rigiau y sefydliad
- Ei sefydlu'n briodol a gyda adnoddau digonol
- Yn arddangos ansawdd a gwelliant parhaus
- Cyfathrebu'n effeithiol
- Darparu sicrwydd yn seiliedig ar sail risg
- Yn craffu, rhagweithiol a ffocws ar y dyfodol
- Hyrwyddo gwelliant sefydliadol

## 7. PERTHYNAS GYDA'R RHAI SY'N GYFRIFOL AM LYWODRAETHU

7.1 Mae'r Cyngor wedi penderfynu mai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw'r "rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" yng Nghyngor Gwynedd.

7.2. Fel arfer, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fydd y prif bwynt cyswllt rhwng y Rheolwr Archwilio a'r aelodau etholedig. Bydd y Rheolwr Archwilio yn sicrhau fod perthnasau gweithio a sianeli cyfathrebu da gyda Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi eu cynnal.

7.3 Bydd y Rheolwr Archwilio yn paratoi adroddiadau i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn amlinellu'r gwaith a gwblhawyd yn y cyfnod yn arwain i fyny at y cyfarfod hwnnw.

7.4 Bydd y Rheolwr Archwilio hefyd yn darparu adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gynnydd yn erbyn y cynllun archwilio blynyddol.

7.5 Ar gyfer hwyluso gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, bydd y Rheolwr Archwilio yn:

- Mynychu Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio a chyfrannu at yr agenda
- Cymryd rhan yn adolygiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o'i gylch gorchwyl a'i effeithlonrwydd
- Yn sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn ac yn deall dogfennau sydd yn disgrifio sut mae archwilio mewnol yn cyflawni ei amcanion (e.e. y cynllun ar sail risg, rhaglen waith flynyddol, adroddiadau cynnydd)

- Penderfynu os oes unrhyw fater a gyfyd o waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sydd yn ei gwneud yn ofynnol i wneud addasiadau i'r cynllun archwilio ac a oes unrhyw faterion yn codi o waith archwilio mewnol y dylid ei gyfeirio i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

## 8. ADRODDIADAU

8.1 Bydd y Rheolwr Archwilio yn sicrhau trefn o oruchwylio gwaith ac adolygu ffeiliau gan yr Arweinyddion Archwilio, ac yn casglu data a pharatoi adroddiadau ar berfformiad y Gwasanaeth ar gyfer y Pennaeth Cyllid yn unol â fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor.

8.2 Bydd adroddiad ffurfiol yn cael ei baratoi ar gyfer y mwyafrif o archwiliadau a gwblheir, ar wahân i rai archwiliadau bychain ble na gafwyd gwendidau sylweddol ac nad oedd adroddiad archwiliad cyflawn yn angenrheidiol. Yn yr achosion hyn, anfonir memoranda i'w swyddogion perthnasol.

8.3 Lle'n briodol, bydd pob adroddiad wedi ei gosod mewn un o 4 categori lefel sicrwydd. Bydd y lefel sicrwydd a ddarperir yn seiliedig ar werthusiad o'r amgylchedd reolaeth fewnol ac ar y nifer o risgiau a adnabuwyd ynghyd â'u sgôr risg.

Bydd y sgôr risg cyfredol yn syrthio i un o bedwar categori risg sef:

| LEFEL RISG | SGOR |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | **20 - 25** |
| **UCHEL** | **12 - 16** |
| **CANOLIG** | **6 - 10** |
| **ISEL** | **1 - 5** |

8.4 Bydd lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod

| | |
|---|---|
| **UCHEL** | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| **DIGONOL** | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach. |
| **CYFYNGEDIG** | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |
| **DIM SICRWYDD** | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion. |

Mae defnyddio lefelau sicrwydd yn debygol o fod yn llai priodol ar gyfer adroddiadau sydd wedi eu paratoi yn dilyn archwiliad arbennig, neu waith sydd ag agwedd "ymgynghori".

8.5 Ar ôl cwblhau gwaith archwilio, caiff adroddiad drafft o'r darganfyddiadau ynghyd â unrhyw feysydd o risg a adnabuwyd ei baratoi ar gyfer y rheolwyr perthnasol er mwyn iddynt gael cyfle i ystyried y darganfyddiadau a datrysiadau posib i liniaru'r risgiau. Rhoddir cyfnod o 2-3 wythnos i reolwyr ymateb i'r drafft, ond ystyrir cyfnod hirach pe derbynnir cais am estyniad. Os na dderbynnir ymateb erbyn y dyddiad a amlinellir, tybir fod yr adroddiad yn dderbyniol a caiff adroddiad terfynol ei ryddhau. Os derbynnir sylwadau, caiff rhain eu hystyried (a gellir addasu'r adroddiad drafft, neu beidio) cyn rhyddhau yr adroddiad terfynol. Os nad oes cytundeb i liniaru risg(iau), bydd hynny yn derbyn sylw yn yr adroddiad terfynol.

8.6 Wedi cyfnod priodol, mae Archwilio Mewnol yn cynnal profion dilyniant er mwyn sicrhau bod yr hyn a gytunwyd yn weithredol. Caiff canlyniadau gwaith dilyniant ei adrodd i Brif Swyddogion ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## 9. BARN ARCHWILIO BLYNYDDOL

9.1 Bydd y Rheolwr Archwilio yn paratoi adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol yn unol â gofynion y Safonau.

## 10. GWAITH AR WAHÂN I WAITH SICRWYDD

10.1 Yn ogystal â'r gwaith sicrwydd a ddisgrifir, mae Archwilio Mewnol hefyd yn:

- Cynnig cyngor ariannol i wasanaethau'r Cyngor, yn arbennig ar Reolau Gweithdrefn Ariannol, Rheolau Gweithdrefn Contractau, Codau Ymarfer Ariannol a Strategaeth Gwrth-dwyll, Gwrth-lygredigaeth a Gwrth-lwgrwobrwyo'r Cyngor.
- Cynorthwyo rheolwyr i atal twyll ac ymchwilio i dwyll ar ran y Pennaeth Cyllid, a chynnig cyngor ar welliannau rheolaethol i osgoi digwyddiadau tebyg i'r dyfodol.
- Mae Strategaeth gwrth-dwyll, gwrth-lygredd a gwrth-lwgrwobrwyo Cyngor Gwynedd yn mynegi yr anogir aelodau a'r cyhoedd yn gyffredinol i adrodd am bryderon o ymddygiad twyllodrus neu lygredig trwy gysylltu â'r Pennaeth Cyllid neu'r Rheolwr Archwilio.
- Darparu gwasanaethau ymgynghorol ar brosiectau penodol (os yw capasiti yn caniatáu). Ni ddarperir lefel sicrwydd ar y prosiectau hyn.

**11. ANGHENION ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL**

1.1 Mae Archwilio Mewnol yn cynnwys y Rheolwr Archwilio, dau Arweinydd Archwilio a phedwar Uwch Archwiliwr. Pe bai'r Rheolwr Archwilio o'r farn nad oes ganddo/ganddi adnoddau digonol i'w g(ch)aniatau i roddi barn ar yr amgylchedd reolaeth yn unol â gofynion y Safonau, bydd yn adrodd hynny i'r Pennaeth Cyllid ac hefyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

11.2 Mae'r Arweinyddion Archwilio yn gyfrifol am oruchwylio ac adolygu gwaith, ac am rannu'r cynllun archwilio i brosiectau ar gyfer archwilwyr unigol.

11.3 Bydd Tîm Rheoli Archwilio (y Rheolwr Archwilio a'r Arweinyddion Archwilio) yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn monitro perfformiad a rhannu gwybodaeth. Hefyd, bydd y Rheolwr Archwilio yn cyfarfod â'r Pennaeth Cyllid i drafod perfformiad a chytuno ar gyfeiriad strategol Archwilio Mewnol.

11.4 O dro i dro, i adlewyrchu'r anghenion archwilio, ac yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael a Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor, bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn prynu arbenigedd o'r tu allan i gynorthwyo gyda'r gwaith archwilio ac er mwyn cynnal lefel sgiliau'r staff parhaol. Mae hyn yn berthnasol i archwiliadau yn y maes technoleg gwybodaeth, ond ni eithrir mathau eraill o archwiliadau o'r ddarpariaeth yma.

**12. HYFFORDDIANT**

12.1 Caiff aelodau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol eu hannog i fynychu gwahanol seminarau a chyrsiau gan gynnwys derbyn gwybodaeth arbenigol mewn meysydd allweddol gan gynnwys twyll, llygredd ac afreoleidd-dra, TG, rheoli prosiect yn seiliedig ar egwyddorion PRINCE2, caffael a chontractau. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn fewnol neu drwy fynychu cyrsiau allanol gan ddarparwyr megis CIPFA.

12.2 Mae Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd yn anelu at barhau i ddatblygu ac atgyfnerthu'r cymysgedd o sgiliau a phrofiad o fewn y gwasanaeth. Bydd Archwilio Mewnol yn parhau gyda'i nod o sicrhau y bydd o leiaf 2 archwilwyr (heb gynnwys y Rheolwr Archwilio) yn gymwysedig â chorff CCAB neu'r IIA, yn ogystal â sicrhau y bydd o leiaf un archwiliwr yn derbyn hyfforddiant ar gyfer cymhwyster proffesiynol ar unrhyw un adeg.

12.3 I gydymffurfio â chymhwyster CIPFA a'r ACCA, mae'n ofynnol i'r Archwilwyr Mewnol sydd wedi ennill y cymhwyster i ymgymryd â isafswm oriau o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn flynyddol.

## 13. DANGOSYDDION PERFFORMIAD

13.1 Adroddir ar brif ddangosydd perfformiad Archwilio Mewnol i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac adroddir ar berfformiad yn adroddiad blynyddol y Rheolwr Archwilio.

13.2 Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cymryd rhan yn ymarferiad meincnodi Grŵp Penaethiaid Archwilio Cymru.

## 14. RHAGLEN SICRWYDD ANSAWDD A GWELLIANT

14.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, a Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol CIPFA sy'n gysylltiedig, yn mynnu bod y Rheolwr Archwilio (y "prif weithredwr archwilio" yn nherminoleg y Safonau) yn datblygu a chynnal rhaglen sicrwydd ansawdd a gwella sy'n cwmpasu pob agwedd o weithgareddau archwilio mewnol.

14.2 Bwriad y rhaglen sicrwydd ansawdd a gwelliant yw galluogi gwerthusiad o gydymffurfiaeth gweithgareddau archwilio mewnol gyda'r Safonau ynghyd â gwerthusiad os yw'r archwilwyr mewnol yn gweithredu'r Côd Moeseg. Mae'r rhaglen hefyd yn asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithgareddau archwilio mewnol ac yn adnabod cyfleoedd ar gyfer gwelliant. Bydd y Rheolwr Archwilio yn annog goruchwyliaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ("y bwrdd" yn nherminoleg y Safonau) dros y rhaglen sicrwydd ansawdd a gwelliant.

14.3 Bydd y rhaglen sicrwydd ansawdd a gwelliant yn cynnwys asesiadau mewnol ac allanol.

14.4 Bydd asesiad allanol yn cael ei gynnal o leiaf unwaith pob pum mlynedd gan adolygwr annibynnol, cymwys o du allan i'r sefydliad, un ai drwy asesiad allanol llawn neu drwy hunanasesiad wedi'i ddilysu gan adolygwr allanol.

14.5 Bydd y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant ynghyd â chanlyniadau'r asesiadau mewnol ac allanol yn cael eu cyflwyno gan y Rheolwr Archwilio i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## 15. DOGFENNAETH BERTHNASOL

15.1 Yn ogystal â'r adroddiad yma, mae'r dogfennau canlynol hefyd o bwysigrwydd i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol:

- Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Rheolau Gweithdrefnol Ariannol
- Codau Ymarfer Ariannol
- Rheolau Gweithdrefnol Contractau a Rheolau Caffael
- Strategaeth Gwrth-Dwyll, Gwrth-Lygredigaeth a Gwrth-Lwgrwobrwyo y Cyngor
- Polisi Canu'r Gloch y Cyngor

Bydd Archwilio Mewnol yn adolygu a chynnig addasiadau i'r dogfennau hyn fel bo'r angen.